

Rheoli dolydd blodau gwyllt... ar gyfer cacwn

Bydd rheoli dól mewn dull priodol, gydag amser, yn helpu i gynyddu nifer ac amrywiaeth y blodau sy'n tyfu yno ac yn sgil hyn, faint ac ansawdd y cynefin lle y gall cacwn chwilota am fwyd.

Pam cynnal dól flodau gwyllt?

Glaswelltiroedd yn llawn blodau gwyllt yw cynefin pwysicaf y cacwn am eu bod yn darparu planhigion drwy gydol yr haf ac yn cynnwys nifer o rywiogaethau sy'n gyfoethog mewn neithdar a phaill. Gall dolydd blodau gwyllt gynnwys hyd at 40 o wahanol fathau o blanhigion y medr sgwâr. Mae blodau fel y feillionen goch, cribell felen, pys ceirw a choch y llawr yn ffynonellau paill ardderchog ar gyfer y frenhines a'r gwenyn gweithgar, tra bo'r bengaled a'r clafrllys yn ffynonellau neithdar pwysig.

Mae glaswelltiroedd yn llawn blodau gwyllt yn arbennig o bwysig ar gyfer ein mathau mwyaf prin o gacwn sydd â thafodau hirion ac yn hoffi blodau hirion planhigion y glaswelltir. Roedd y dolydd hyn yn arfer bod yn gyffredin ond, yn anffodus, diflannodd y rhan fwyaf ohonynt yn ystod y degawadau diwethaf oherwydd newidiadau mewn dulliau ffermio. Y mae dychwelyd at dulliau llai dwys a mwy traddodiadol o reoli dolydd yn well ar gyfer y cacwn am ei fod yn hybu amrywiaeth ehangach a nifer helaethach o flodau. Mae dolydd gwair hefyd yn darparu cnwd maethlon a gwerthfawr.

Mae manteision hefyd ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir, gan gynnwys y posibilrwydd o arbed




arian. Drwy ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer cacwn fe allech gynyddu maint eich cnwd tra'n lleihau eich gwariant at gemegau amaeth. Byddai hyn o fudd i'ch tir ac yn helpu i gynnal bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau i ddod.


Sut i reoli dolydd


Y mae torri'r ddôl ar ddiwedd yr haf a chael gwared ar y torion yn rhan bwysig o reoli dolydd. Y bwriad wrth dorri yw cadw'r tir yn dlawd o ran maeth ac atal y gweiriau bras a fyddai'n trechu'r blodau gwyllt, rhag tyfu. Dylid gadael y torion ar y ddôl am ychydig ddiwrnodau a'u troi cyn eu cymryd ymaith er mwyn caniatáu i'r gwair sychu ac i'r hadau ddisgyn.


Ni ddylid rhoi gwrtaith cemegol ar y tir gan ei fod yn hybu twf gweiriau sydd yn lledu'n gyflym. Ni ddylid rhoi llawer o ddom ar y tir ychwaith. Dylech geisio pori'r ddôl

Ffeithiau allweddol

 **Cynnal**
Torri a phori yn flynyddol

 **Addas ar gyfer**
Glaswelltir parhaol

 **Cynaliadwyedd**
Dewis tymor hir

 **Addasrwydd ar gyfer cacwn**
♥♥♥♥♥

yn ystol y gwanwyn a diwedd yr haf neu'r hydref. Bydd hyn yn helpu i atal y gweiriau a fydd yn dal i dyfu ar ôl i'r gwair gael ei dorri.

Cylchdroi'r toriad hwyr

Os oes nifer o ddolydd gennych, cylchdroch y toriad hwyr (ym mis Medi) o gwmpas y fferm gan dorri bob cae yn ei dro yn hwyr bop rhyw bum mlynedd. Bydd hyn yn darparu ardaloedd lle y gall y cacwn chwilota am fwyd yn nes ymlaen yn y tymor ac yn cyfoethogi'r glaswelltir blodau gwyllt drwy ganiatáu i blanhigion sy'n blodeuo'n hwyr i gynhyrchu hadau.

Os mai un neu dwy ddôl yn unig sydd gennych, gadewch lain dau fedr o led heb ei dorri ar hyd un ymyl ym mhob cae. Torrwch y llain hwn fel arfer y flwyddyn ddilynol a gadael llain arall heb ei dorri ar hyd yr ymyl nesaf. Gwnewch hyn bob bwyddyn gan gylchdroi'r llain sydd heb ei dorri o gwmpas ymylon eich cae.

Rheoli dolydd gyda gofal er mwyn helpu i ddiogelu cacwn

<i>Dull o reoli</i>	<i>Pryd</i>	<i>Pam</i>
Lladd gwair unwaith y flwyddyn.	Rhwng canol Gorffennaf ac Awst	Byddai torri cyn canol Gorffennaf yn rhwystro nifer o flodau pwysig y ddôl rhag blodeuo a ffurfio hadau.
Troi a sychu'r gwair am 3-5 niwrnod cyn byrnio. Yn ystod haf gwlyb, ceisio troi 2-3 gwaith cyn gwneud silwair.	Rhwng canol Gorffennaf ac Awst	Mae'n galluogi'r hadau i ddisgyn sy'n adfywio'r stoc o hadau ac yn sicrhau glaswelltir llawn blodau.
Torri cae neu lain mewn cylchdro yn nes ymlaen yn y flwyddyn.	Mis Medi	Mae cylchdroi'r toriad hwyr mewn cae neu leiniau yn flynyddol yn sicrhau fod gan y cacwn ffynhonnell fwyd yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
Peidio â defnyddio gwrrtaith cemegol.		Bydd defnyddio gwrrtaith cemegol yn hybu tyfiant gweiriau sy'n lledu'n gyflym a chwyn, gan atal blodau'r ddôl rhag tyfu.
Rhowch haen denau o ddom sydd wedi braenu'n dda ar y tir fel rhan o ddull rheoli traddodiadol yn unig.		Mae llawer o ddom neu ddom ffres ar y tir yn gweithredu fel gwrrtaith cemegol ac yn gallu achosi i chwyn ledi.
Ogedu neu lyfnu cyn canol mis Mawrth.	Rhwng mis Chwefror a dechrau mis Mawrth	Gallai trin y tir yn y gwanwyn neu'r haf ddinistrio nythod cacwn ac adar sy'n nythu ar y ddaear.
Ychwanegu calch i gael pH o 5-6.5 fel rhan o ddull rheoli traddodiadol yn unig.		Mae pH niwtral yn darparu'r amgylchiadau gorau ar gyfer nifer o blanhigion sy'n denu cacwn.
Pori gwartheg neu ddefaid yn yr hydref a'r gwanwyn gan symud y stoc erbyn canol Mai.	Yr hydref a'r gwanwyn	Mae pori'r tir yn helpu i hybu hadau i ffurfio drwy gadw'r glaswellt yn fyr, cael gwared o wellt a chreu darnau moel.

Dulliau gwahanol o reoli

Os nad ydych yn gallu pori'r ddôl, gallech dorri'r gwair yn gynnar yn y gwanwyn. Byddai hyn yn rhwystro tyfiant rhy dal ac yn helpu i atal gweiriau sy'n lledu'n gyflym a chwyn.

Adfer dolydd

Weithiau gall rheolaeth dda fod yn ddigon i gynyddu'r amrywiaeth o flodau mewn dôl ond efallai y bydd angen i chi hau rhywiogaethau pwysig sy'n eisiau os nad oes ffynhonnell o hadau gerllaw.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch Daflen Wybodaeth 4 yn ein cyfres ar reoli tir: Creu ac adfer glaswelltir ar gyfer cacwn.

Cyllid

Mae'n bosibl fod cyllid ar gael i reoli glaswelltir yn y modd hwn fel rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol neu brosiectau lleol. Os yw'ch tir yn rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol, trafodwch unrhyw newid gyda'ch ymgynghorwr cytundeb. Ar gynghor ar sut i reoli'ch tir gyda gofal er mwyn hybu cacwn, cysylltwch â'r BCC.

Cysylltwch â ni

 Ffôn	02380 642 060
 E-bost	advice@bumblebeeconservation.org
 Gwefan	bumblebeeconservation.org